



Gofal Cymdeithasol **Cymru**
Social Care **Wales**

Arweinyddiaeth dosturiol i reolwyr

Adnoddau sy'n diffinio arweinyddiaeth dosturiol ac yn cefnogi arweinwyr a rheolwyr i gofleidio'r egwyddor graidd yn eu hymarfer.

Cyhoeddwyd gyntaf: 10 Mai 2021

Diweddariad olaf: 8 Ebrill 2024

Lawrlwythwyd y ddogfen hon o gofalcymdeithasol.cymru ac efallai nid hwn yw'r fersiwn diweddaraf.

Ewch i <https://gofalcymdeithasol.cymru/adnoddau-canllawiau/rolau/rheolwyr-a-chyflogwyr-gofal-cymdeithasol/arweinyddiaeth-dosturiol-i-reolwyr> am y fersiwn diweddaraf.

Mae Cymru lachach a [Strategaeth y Gweithlu Iechyd a Gofal Cymdeithasol](#) yn rhannu gweledigaeth y bydd arweinwyr ym maes iechyd a gofal cymdeithasol erbyn 2030 yn dangos arweinyddiaeth ar y cyd a thosturiol. Nod yr adnoddau hyn yw helpu i ddiffinio'r hyn a olygwn wrth arweinyddiaeth dosturiol a chefnogi arweinwyr a rheolwyr i'w gofleidio yn eu hymarfer.

Beth yw arweinyddiaeth dosturiol ym maes gofal cymdeithasol?

Mae arweinwyr tosturiol yn modelu ymddygiadau craidd o fynychu, deall, empathi a helpu i greu diwylliannau cynhwysol, effeithiol a chyfunol yn eu timau.

Mae'r [King's Fund](#) yn disgrifio hyn yng nghyd-destun:

'Mae arweinwyr tosturiol yn gofalu am eu hunain ac yn modelu'r hunanofal hwn i eraill. Maen nhw'n sylweddoli ei bod hi'n iawn bod yn ddynol, gwneud camgymeriadau a dysgu oddi wrthyn nhw - ac maen nhw'n rhoi caniatâd iddyn nhw eu hunain ac eraill wneud hyn. Mewn amgylchedd lle mae pwysau yn uchel a blaenoriaethau sy'n cystadlu'n gyson gellir anghofio tosturi weithiau, ond mae'n rhaid i'r arweinwyr hyn fod yn ddigon dewr i weithio yn erbyn y normau a herio'r diwylliant ehangach sy'n treiddio trwy system a graffir yn gyhoeddus ac a reoleiddir yn gyhoeddus'.

Gall hyn fod yn heriol ac weithiau'n teimlo'n wrth-reddfol mewn rolau arwain dan bwysau. Mae'r ffilm fer isod yn disgrifio sut mae arweinyddiaeth dosturiol yn edrych yn ymarferol.

Gweld trawsgrifiad

00:00:00,720 --> 00:00:02,200

Helo, Michael West ydw i.

2

00:00:02,400 --> 00:00:05,520

Dw i'n Uwch Gymrawd Gwadd yn

The King's Fund yn Llundain...

3

00:00:05,720 --> 00:00:09,680

..ac yn Athro Seicoleg Sefydliadol

ym Mhrifysgol Caerhirfryn.

4

00:00:09,960 --> 00:00:13,200

Dw i eisiau disgrifio

yr hyn sy'n cael ei olygu wrth...

5

00:00:13,400 --> 00:00:17,640

.arweinyddiaeth dosturiol mewn

gofal cymdeithasol ledled Cymru.

6

00:00:18,200 --> 00:00:21,800

Mae'n golygu pedwar ymddygiad - talu

sylw i rai ry'n ni'n eu harwain...

7

00:00:22,000 --> 00:00:24,720

..deall yr heriau

maen nhw'n eu hwynebu...

8

00:00:24,920 --> 00:00:27,880

..dangos empathi tuag atyn nhw

a'u helpu nhw.

9

00:00:28,080 --> 00:00:31,960

Mae angen i ni dalu sylw

i'r rhai rydyn ni'n eu harwain.

10

00:00:32,160 --> 00:00:34,840

Bod yn bresennol gyda nhw.

11

00:00:35,040 --> 00:00:37,160

Gwranddo arnyn nhw gyda diddordeb.

12

00:00:37,360 --> 00:00:40,880

Ac o ystyried y pwysau

sydd ar staff gofal cymdeithasol...

13

00:00:41,080 --> 00:00:44,720

..ceisio deall yr heriau

maen nhw'n eu hwynebu.

14

00:00:44,920 --> 00:00:50,320

Nid trwy orfodi ein dealltwriaeth

o safle hierarchaidd pell.

15

00:00:50,520 --> 00:00:53,680

Ond trwy ddeialog, er mwyn cyrraedd
dealltwriaeth ar y cyd...

16

00:00:53,880 --> 00:00:56,560

..o'r heriau y maen nhw'n eu hwynebu
wrth eu gwaith.

17

00:00:56,760 --> 00:01:02,040

Yn drydydd, mae'n fater o ymateb
gydag empathi, teimlad a gofal.

18

00:01:02,240 --> 00:01:05,920

Teimlo'r pwysau sydd arnyn nhw,
teimlo'r pryderon.

19

00:01:06,120 --> 00:01:10,960

Teimlo weithiau'r synnwyr o

annigonolrwydd sydd falle gan staff.

20

00:01:11,160 --> 00:01:14,960

Mae hyn yn darparu'r cymhelliant
ar gyfer pedwaredd elfen tosturi...

21

00:01:15,160 --> 00:01:18,320

..sef helpu, neu wasanaethu,
y rhai rydyn ni'n eu harwain.

22

00:01:18,520 --> 00:01:21,960

Mae modd gwneud hynny drwy helpu
i gael gwared ar rwystrau...

23

00:01:22,160 --> 00:01:25,680

..sy'n eu hatal rhag gwneud eu
gwaith mewn ffordd effeithiol...

24

00:01:25,880 --> 00:01:29,840

..a'u helpu i ddod o hyd i'r

adnoddau sydd eu hangen arnyn nhw.

25

00:01:30,120 --> 00:01:32,960

Y nifer cywir o staff

gyda'r sgiliau cywir...

26

00:01:33,160 --> 00:01:36,200

..y cyfarpar a'r technolegau cywir,

cyfrifiadura...

27

00:01:36,400 --> 00:01:38,600

..a'r hyfforddiant

a datblygiad cywir...

28

00:01:38,800 --> 00:01:42,440

..i roi'r sgiliau cywir iddyn nhw

allu gwneud eu swyddi'n effeithiol.

29

00:01:42,640 --> 00:01:45,120

Mae'n wybyddus i ni

ers 60 mlynedd...

30

00:01:45,320 --> 00:01:48,640

..bod yr ymddygiadau hyn,

sef arweinyddiaeth dosturiol...

31

00:01:48,840 --> 00:01:51,800

..yn allweddol

er mwyn arwain yn effeithiol...

32

00:01:52,000 --> 00:01:55,080

..ac i sicrhau bod timau

a sefydliadau yn effeithiol.

33

00:01:57,520 --> 00:02:00,920

Nid rhyw ymagwedd clustog feddal
a chanhwyllau persawrus...

34

00:02:01,120 --> 00:02:03,000

..tuag at arweinyddiaeth mo hon.

35

00:02:03,200 --> 00:02:05,840

I'r gwrthwyneb,
mae arweinyddiaeth dosturiol...

36

00:02:06,040 --> 00:02:09,200

..yn gofyn am gryn dipyn mwy
o ddewrder a dilysrwydd...

37

00:02:09,400 --> 00:02:12,400

..na'r dewis hawdd o arwain
drwy orchymyn a rheoli.

38

00:02:12,600 --> 00:02:15,320

Oherwydd yn y bôn,

mae ein tosturi fel arweinwyr...

39

00:02:15,520 --> 00:02:18,400

..yn mynd tuag at bobl Cymru

rydyn ni'n eu gwasanaethu.

40

00:02:18,600 --> 00:02:20,680

Y cymunedau

rydyn ni'n eu gwasanaethu.

41

00:02:20,880 --> 00:02:23,760

Mae hynny'n golygu ffocws cryf

ar berfformiad...

42

00:02:23,960 --> 00:02:27,360

..a rheoli perfformiad

mewn ffordd dosturiol.

43

00:02:27,960 --> 00:02:31,480

Hefyd, nid dull hawdd seiliedig

ar gonsensws o symud ymlaen mo hwn.

44

00:02:31,680 --> 00:02:34,480

Mae'n sicrhau ein bod ni'n gwneud

yr hyn sydd orau...

45

00:02:34,680 --> 00:02:36,960

..yn ein lleoliadau

gofal cymdeithasol...

46

00:02:37,160 --> 00:02:40,440

..i'n galluogi ni i ddarparu

gofal a chymorth o ansawdd uchel...

47

00:02:40,640 --> 00:02:43,320

..i'r bobl a'r cymunedau

rydyn ni'n eu gwasanaethu.

48

00:02:43,520 --> 00:02:47,440

Felly mae'n fater o sicrhau

bod arweinydd yn effeithiol...

49

00:02:47,640 --> 00:02:51,640

..drwy greu synnwyr o weledigaeth

neu gyfeiriad sy'n ysbrydoli.

50

00:02:51,840 --> 00:02:55,840

Mae hwn yn olau sy'n tywys

ein penderfyniadau bob dydd...

51

00:02:56,040 --> 00:02:58,440

..bob awr a munud yn ystod y dydd.

52

00:02:58,640 --> 00:03:01,600

Mae'n sicrhau bod ymdrechion pobl

yn gyson â'i gilydd...

53

00:03:01,800 --> 00:03:04,440

..yn ein timau a'n sefydliadau...

54

00:03:04,640 --> 00:03:07,160

..drwy sicrhau

bod nodau clir i'w cael...

55

00:03:07,360 --> 00:03:10,880

..a bod pobl yn cydgysylltu

eu gwaith yn effeithiol.

56

00:03:11,080 --> 00:03:13,800

A thrwy greu teimlad

o ymddiriedaeth ac ymrwymiad...

57

00:03:14,000 --> 00:03:16,160

..ledled ein timau a'n sefydliadau.

58

00:03:16,360 --> 00:03:19,920

Mae hefyd yn fater o sicrhau

bod arweinyddiaeth yn gynhwysol.

59

00:03:20,120 --> 00:03:23,560

Os nad yw arweinyddiaeth yn

gynhwysol, nid yw'n dosturiol.

60

00:03:23,760 --> 00:03:28,880

Felly sicrhau bod pawb yn teimlo

wedi eu cynnwys yn y dull arwain...

61

00:03:29,080 --> 00:03:33,080

..waeth beth fo'u cefndir

proffesiynol...

62

00:03:33,280 --> 00:03:36,800

..neu rywedd neu ethnigrwydd

neu genedligrwydd.

63

00:03:37,400 --> 00:03:40,520

Achos mae bod yn gynhwysol

a dangos tosturi...

64

00:03:40,720 --> 00:03:43,280

..yn ddwy ochr i'r un geiniog

mewn ffordd.

65

00:03:43,480 --> 00:03:47,320

Maen nhw'n ymwneud â phylu'r ffiniau

rhwng yr hunan ac eraill...

66

00:03:47,520 --> 00:03:51,720

..a chreu ymdeimlad o gysylltiad

a bod yn ddiogel a chael cefnogaeth.

67

00:03:52,240 --> 00:03:55,760

Mae arweinyddiaeth dosturiol

yn fater o gydweithio...

68

00:03:55,960 --> 00:03:58,280

..a rhannu pŵer

a galluogi pawb i deimlo...

69

00:03:58,480 --> 00:04:01,400

..bod ganddyn nhw hawliau

a chyfrifoldebau arwain.

70

00:04:02,960 --> 00:04:06,200

Mae hynny'n golygu annog
arweinyddiaeth ar y cyd mewn timau.

71

00:04:06,400 --> 00:04:09,240

Efallai bod gennym ni
arweinydd tîm hierarchaidd...

72

00:04:09,440 --> 00:04:11,840

..ond rôl yr arweinydd
yw dod â chyfraniad...

73

00:04:12,040 --> 00:04:15,400

..a gwybodaeth pawb ynghyd i
ddarparu gofal o ansawdd uchel...

74

00:04:15,600 --> 00:04:18,480

..i'r bobl a'r cymunedau

rydyn ni'n eu gwasanaethu.

75

00:04:18,680 --> 00:04:20,480

Mae arweinyddiaeth dosturiol...

76

00:04:20,680 --> 00:04:23,880

..yn fater o weithio'n dosturiol

mewn ffordd gynorthwyol...

77

00:04:24,080 --> 00:04:27,480

..ar draws ffiniau gyda thimau

a sefydliadau a sectorau eraill...

78

00:04:27,680 --> 00:04:30,480

..ry'n ni'n gweithio gyda nhw,

gan roi blaenoriaeth...

79

00:04:30,680 --> 00:04:34,320

..i ddarparu gofal o ansawdd da i'r
cymunedau rydyn ni'n eu gwasanaethu.

80

00:04:34,520 --> 00:04:38,120

A gofyn y cwestiwn hwn wrth ymdrin
â thimau a sefydliadau eraill...

81

00:04:38,320 --> 00:04:40,320

.."Sut gallwn ni eich helpu chi?"

82

00:04:40,520 --> 00:04:45,280

Mae arwain yn dosturiol yn greiddiol
i greu'r diwylliant sydd ei angen...

83

00:04:45,480 --> 00:04:49,560

..er mwyn trawsnewid iechyd
a gofal cymdeithasol yng Nghymru...

84

00:04:49,760 --> 00:04:51,520

..dros y blynyddoedd nesaf...

85

00:04:51,720 --> 00:04:56,160

..er budd pobl a chymunedau

ledled y wlad.

Egwyddorion arweinyddiaeth dosturiol dros iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru

Lansiodd Gofal Cymdeithasol Cymru ac Addysg a Gwella Iechyd Cymru [Egwyddorion Arweinyddiaeth Tosturiol ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol yng Nghymru](#) ddydd Mercher 12 Mai 2021. Nod y rhain yw darparu cydddealltwriaeth o beth yw arweinyddiaeth dosturiol a sut olwg sydd arni yn ymarferol.

Yn y ffilm lansio byr hwn Sue Evans, Prif Swyddog Gweithredol Gofal Cymdeithasol Cymru, Alex Howells, Prif Swyddog Gweithredol Addysg a Gwella Iechyd Cymru, Andrew Goodall, Cyfarwyddwr Cyffredinol Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol a Michael West, Uwch gymrawd ymweliadol yn y Kings Trust ac athro seicoleg sefydliadol ym Mhrifysgol Caerhirfryn yn disgrifio gweledigaeth a rennir yr egwyddorion hyn a beth mae hyn yn ei olygu i ofal cymdeithasol ac iechyd yng Nghymru.

[Gwylwch y ffilmiau cymeradwyaeth gan ein Harweinyddiaeth a'n Harbenigwyr.](#)

Arweinyddiaeth dosturiol yn ystod Covid-19

Rydym wedi creu adnoddau i helpu arweinwyr i [amddiffyn eu lles eu hunain ac i gefnogi eu timau](#).

Mae'r Athro Michael West, Uwch gymrawd ymweliadol yn The King's Fund ac athro seicoleg sefydliadol ym Mhrifysgol Caerhirfryn yn darparu rhai myfyrdodau ar sut y gellir defnyddio arweinyddiaeth dosturiol ar adegau o argyfyngau yn y ffilm fer hon.

Gweld trawsgrifiad

00:00:00,720 --> 00:00:02,200

Helo, Michael West ydw i.

2

00:00:02,200 --> 00:00:05,520

Dw i'n Uwch Gymrawd Gwadd yn

The King's Fund yn Llundain...

3

00:00:05,720 --> 00:00:10,680

..ac yn Athro Seicoleg Sefydliadol

ym Mhrifysgol Caerhirfryn.

4

00:00:10,960 --> 00:00:13,640

Dw i eisiau rhannu ychydig

o syniadau gyda chi...

5

00:00:13,840 --> 00:00:17,640

..ynghylch pwysigrwydd arwain

yn dosturiol mewn argyfwng.

6

00:00:18,240 --> 00:00:21,440

Rydyn ni wedi dysgu llawer

dros y misoedd diwethaf...

7

00:00:21,640 --> 00:00:27,200

..wrth ymdopi â phandemig ofnadwy

ledled y byd.

8

00:00:28,400 --> 00:00:30,320

Mae wedi bod yn bwysig iawn...

9

00:00:30,520 --> 00:00:33,400

..mewn cyfnod o ofn,
ansicrwydd a phryder...

10

00:00:33,600 --> 00:00:36,520

..bod pobl yn gallu cael
y teimlad o fod yn ddiogel...

11

00:00:36,720 --> 00:00:39,680

..a ddaw pan fo arweinwyr
yn ymddwyn yn dosturiol.

12

00:00:39,880 --> 00:00:42,440

Maen nhw'n gwneud hyn
drwy dalu sylw iddyn nhw...

13

00:00:42,640 --> 00:00:45,200

..gan geisio deall yr heriau

sy'n eu hwynebu...

14

00:00:45,400 --> 00:00:47,880

..dangos empathi tuag atyn nhw

a'u helpu nhw.

15

00:00:48,320 --> 00:00:51,960

Cael gwared â rhwystrau sy'n

eu hatal rhag gwneud eu swyddi...

16

00:00:52,160 --> 00:00:55,400

..neu sicrhau bod yr adnoddau

angenrheidiol ganddyn nhw.

17

00:00:55,600 --> 00:00:58,560

Yn ystod cyfnod anodd llawn newid,

rydyn ni'n gwybod...

18

00:00:58,760 --> 00:01:02,160

..mai rôl arweinwyr

yw canolbwyntio hyd yn oed mwy...

19

00:01:02,360 --> 00:01:04,840

..ar roi cefnogaeth i staff.

20

00:01:05,040 --> 00:01:07,360

Dyna sy'n eu galluogi i ymdopi...

21

00:01:07,560 --> 00:01:10,760

..a rheoli newid ac ansicrwydd

yn effeithiol.

22

00:01:11,640 --> 00:01:16,760

Mae'n hawdd iawn i arweinwyr

bron anghofio pwysigrwydd...

23

00:01:16,960 --> 00:01:22,120

..cynyddu cefnogaeth i'r rhai maent
yn eu harwain mewn cyfnod fel hyn.

24

00:01:22,320 --> 00:01:25,360

Dw i'n meddwl mai'r trydydd rheswm
pwysig iawn...

25

00:01:26,080 --> 00:01:29,960

..yw, mewn cyfnodau o ansicrwydd
ac argyfwng, ein bod ni angen...

26

00:01:30,160 --> 00:01:34,720

..cymaint o greadigrwydd,
gallu i addasu ac arloesedd...

27

00:01:34,920 --> 00:01:37,240

..ag sy'n bosibl eu cael...

28

00:01:37,440 --> 00:01:41,120

..gan y staff yn ein timau

a sefydliadau gofal cymdeithasol.

29

00:01:41,320 --> 00:01:45,800

Maen nhw ymysg y bobl mwyaf galluog

a chryf eu cymhelliad...

30

00:01:46,000 --> 00:01:48,320

..o blith holl weithlu Cymru.

31

00:01:48,520 --> 00:01:50,800

Felly, drwy eu rheoli

nhw'n dosturiol...

32

00:01:51,000 --> 00:01:54,800

..drwy wrando, deall,
dangos empathi a helpu...

33

00:01:55,000 --> 00:01:58,720

..rydyn ni'n rhyddhau'r arloesedd
a'r creadigrwydd hwnnw.

34

00:01:58,920 --> 00:02:03,360

Mae hyn yn ein galluogi ni i addasu
i gyfnodau o argyfwng a newid.

35

00:02:03,560 --> 00:02:06,160

Mae hefyd yn fater
o ganolbwyntio'n dosturiol...

36

00:02:06,360 --> 00:02:09,640

..ar anghenion craidd y rhai
rydyn ni'n eu harwain yn y gwaith.

37

00:02:09,840 --> 00:02:12,920

Yn enwedig

yn ystod cyfnodau o argyfwng.

38

00:02:13,280 --> 00:02:18,120

Ein tri angen craidd sef yr angen

am annibyniaeth a rheolaeth...

39

00:02:18,320 --> 00:02:21,200

..a'r angen am deimlad o berthyn.

40

00:02:21,400 --> 00:02:24,880

Rydyn ni'n teimlo gofal,

gwerthfawrogiad a pharch...

41

00:02:25,080 --> 00:02:27,760

..gan ein harweinwyr, ein timau,

ein sefydliadau.

42

00:02:27,960 --> 00:02:30,480

A'r angen am deimlad o gymhwysedd...

43

00:02:30,680 --> 00:02:34,120

..ein bod yn gwneud gwahaniaeth

cadarnhaol drwy ein gwaith.

44

00:02:34,320 --> 00:02:37,840

Pan fo arweinwyr tosturiol,

mewn cyfnodau o argyfwng...

45

00:02:38,040 --> 00:02:41,600

..yn canolbwyntio ar angen pobl

am annibyniaeth a rheolaeth...

46

00:02:41,800 --> 00:02:45,200

..fel nad ydyn nhw'n ddioddefwyr

system gorchymyn a rheoli...

47

00:02:45,400 --> 00:02:47,560

..rydyn ni'n rhyddhau eu harloesedd.

48

00:02:47,760 --> 00:02:50,080

Mae yna dueddiad dealladwy...

49

00:02:50,280 --> 00:02:54,520

..i arweinwyr mewn argyfwng

droi at ddull gorchymyn a rheoli...

50

00:02:54,880 --> 00:02:56,667

..ac mae hyn yn rhwystro arloesedd a gallu i addasu.

51

00:02:57,760 --> 00:03:02,960

Ac yn ail, mae'n sicrhau ein bod yn

annog y teimlad hwnnw o berthyn...

52

00:03:03,160 --> 00:03:05,400

..drwy atgyfnerthu

gweithio mewn tîm...

53

00:03:05,600 --> 00:03:08,600

..a sicrhau bod pawb yn gweithio

mewn tîm cefnogol...

54

00:03:08,800 --> 00:03:12,680

..sydd â nodau clir ac sy'n cyfarfod
yn rheolaidd i adolygu perfformiad.

55

00:03:12,880 --> 00:03:16,160

Oherwydd dyna sy'n amddiffyn

lles staff...

56

00:03:16,360 --> 00:03:20,000

..ac sydd hefyd yn gysylltiedig
ag arloesedd a'r gallu i addasu.

57

00:03:20,200 --> 00:03:22,880

Yn drydydd, mae'n rhaid sicrhau...

58

00:03:23,080 --> 00:03:27,520

..ein bod yn hybu
teimlad pobl o gymhwysedd...

59

00:03:27,720 --> 00:03:30,400

.drwy sicrhau
nad ydyn nhw'n cael eu llethu...

60

00:03:30,600 --> 00:03:32,720

..gan bwysau gwaith gormodol
di-baid.

61

00:03:33,320 --> 00:03:37,560

Mae arweinyddiaeth dosturiol dda
mewn cyfnod o argyfwng...

62

00:03:37,760 --> 00:03:42,320

..yn fater o ganolbwyntio'n barhaus
ar waith a gorlwytho gwaith...

63

00:03:42,520 --> 00:03:45,240

..i sicrhau ein bod yn cefnogi
ac yn gofalu am...

64

00:03:45,440 --> 00:03:47,040

..y rhai rydyn ni'n eu harwain.

65

00:03:47,240 --> 00:03:50,960

Mae'n fater o fod yn ddigon dewr

i gymryd amser yn rheolaidd...

66

00:03:51,160 --> 00:03:55,000

..fel timau ac arweinwyr, i fyfyrrio

ar sut ry'n ni'n ymdopi ac addasu...

67

00:03:55,200 --> 00:03:58,680

..beth rydyn ni'n trio ei gyflawni,

sut rydyn ni'n gwneud hynny...

68

00:03:58,880 --> 00:04:00,480

..a beth sydd angen i ni newid.

69

00:04:00,680 --> 00:04:04,240

Oherwydd mae'r holl dystiolaeth

ymchwil sydd gennym yn dweud...

70

00:04:04,440 --> 00:04:06,960

..mewn lleoliadau

gofal cymdeithasol...

71

00:04:07,160 --> 00:04:10,680

..ei bod yn hollbwysig cael amser

i fyfyrion ac adolygu...

72

00:04:10,880 --> 00:04:14,760

..fel unigolion gyda rheolwyr,

cael goruchwyliaeth fel timau...

73

00:04:14,960 --> 00:04:17,040

..a chael amser

i fyfyrion ac adolygu...

74

00:04:17,240 --> 00:04:20,400

..ac fel sefydliadau

sy'n delio ag argyfwng...

75

00:04:20,600 --> 00:04:23,840

..er mwyn bod yn effeithiol,
arloesol a chynhyrchiol.

76

00:04:24,040 --> 00:04:27,600

Dyna sut y mae modd gweithio'n fwyaf
effeithiol mewn argyfwng...

77

00:04:27,800 --> 00:04:31,320

..dros y bobl a'r cymunedau rydyn
ni'n eu gwasanaethu yng Nghymru.

78

00:04:31,520 --> 00:04:32,720

Diolch yn fawr.

Erthyglau ac adnoddau defnyddiol

Dyma ddolenni i erthyglau ac adnoddau.

- [Porth Arweinyddiaeth Gwella](#)

- [The King's Fund](#)
- [James A. 2019. Arweinyddiaeth Dosturiol yn Clouston et al., Dod yn ymarferydd gofalgwr a thosturiol.](#)

Cysylltu â ni

Os oes gennych gwestiwn neu os na allwch ddod o hyd i'r hyn yr ydych yn edrych amdano, [cysylltwch â ni](#).